

Y GWASANAETH ADDYSG:

CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD



Amser: 8.30am – 10.30am
Dyddiad: 15^{fed} Ionawr, 2020
Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1

AGENDA DRAFFT

Cyf	Eitem	Categori	Yn Arwain
1	Ymddiheuriadau a chroeso i'r FfCY	Eitem sefydlog	Cadeirydd
2	Cofnodion y cyfarfod blaenorol (27 ^{ain} Tachwedd 2019) a materion yn codi:	Eitem sefydlog (papurau wedi'u hatodi)	Cadeirydd
3	Diweddariad ar y Gyllideb 2020/21	Gwybodaeth a Thrafodaeth (cyflwyniad)	Neil Hardee, Rob Green
4	Diweddariad Fformiwla 2020/2021	Gwybodaeth a Thrafodaeth (amgaeir y cyflwyniad)	Neil Hardee, Rob Green
5	Diweddariad am Fuddsoddi mewn Seilwaith TGCh	Gwybodaeth a Thrafodaeth (i'w cyflwyno)	Neil Hardee
6	Diswyddo, TGAC, CGG	Gwybodaeth a Thrafodaeth (papurau ynghlwm)	Rob Green
7	Unrhyw Fater Arall	Eitem sefydlog	Cadeirydd

Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol:

2020

11.03.2020

08.07.2020 (CLG yn dilyn)

Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD



Amser: 8.30am – 10.30am
Dyddiad: 15 Ionawr 2020
Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1, Neuadd y Sir
Yn bresennol: Sarah Griffiths - Cadeirydd (SG), y Cynghorydd Sarah Merry, y Cynghorydd Chris Weaver, Y Cynghorydd Joel Williams (JW), Mike Tate (MT), Rob Green (RG), Neil Hardee (NH), David Harris (DH), Marc Belli (MB), Angela Jardine (AJ), Andrew Skinner (AS), Nic Naish (NN), John Hayes (JH), Patrick Brunnock (PB), Abigail Beacon (AB), Suzanne Williams (SW), Adrian Dinsmore (AD), Kevin Hart (KH), Ann Griffin (AG), Jane Setchfield (JS), David Silver (DS), Wayne Murphy (WM), Tracey Stephens (TS), Catherine Power (CP), Sarah Parry (SP), Louise Bloom – Clerc (LB)

Ymddiheuriadau: Ian Allwood (IA), Nick Batchelar (NB), Richard Portas (RP), Karen Dell'Armi (KA), Jane Marchesi (JM), Mari Phillips (MP), Ivor Gittins (IG), Sara Allen (SA)

Cyf	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
1	Ymddiheuriadau a chroeso	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a derbyniodd ymddiheuriadau.	
2	Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi	
2.2	Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 ^{ain} Tachwedd 2019 fel cofnod cywir, yn amodol ar ddiwygiad i'r paragraff cyntaf ym mhwynt 6.1.	
2.3	<u>Materion yn codi</u>	
2.4	CATC Adroddodd NH fod y CATC a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 17 ^{eg} Rhagfyr wedi'i ohirio, trafododd yr aelodau ddyddiad diwygiedig a chytunwyd i gyfarfod am 8.30am ar 24 ^{ain} Ionawr. Bydd NH yn dosbarthu gwahoddiad yn dilyn y cyfarfod Fforwm Cyllideb Ysgolion.	NH
2.5	Balansau Ysgolion Adroddodd RG fod cyfarfodydd cynhyrchiol wedi'u cynnal gyda deuddeg o'r pedwar ar ddeg o ysgolion sy'n uwch na'r trothwyon lleol, a bydd swyddogion wedi'u trefnu i gwrdd â'r ddwy ysgol sy'n weddill cyn bo hir. Bydd canlyniadau'r cyfarfodydd a dilyniant balansau diwedd blwyddyn yn cael eu rhannu yn y cyfarfod Fforwm Cyllideb Ysgolion nesaf.	RG/NH

	<p>ffigyrau'r llynedd yn erbyn eleni yn cael ei rhoi ar ôl ei chwblhau. Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunwyd i wahodd y Consortiwm i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn nhymor yr hydref i egluro sut y caiff grant Ôl-16 ei ariannu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd swyddogion yn holi ysgolion lle mae gwahaniaethau sylweddol rhwng ffigyrau disgyblion ôl-16 disgwylidig a gwirioneddol. Bydd archwiliad yn cael ei gynnal ym mis Hydref a bydd amrywiannau'n cael eu hailddosbarthu yn ystod y flwyddyn. Argymhellodd MB fod llywodraethwyr yn herio ysgolion ar ffigyrau rhagamcanol. • Holodd yr Aelodau a fyddai'r Gwasanaethau Canolog yn dal i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar ôl lleihau nifer y staff. Nodwyd gan fod y gwasanaeth ar sail fasnachedig mai ysgolion yw'r cwsmer. Cydnabu'r Cynghorydd Merry heriau wrth gyflawni toriadau, ond mae gan Addysg lai o doriadau nag adrannau eraill y Cyngor ac fe'i diogelir cyn belled ag oedd yn bosib. • Cynigiodd rhai aelodau dynnu'n ôl o CSC er mwyn cyflawni arbedion ac awgrymodd rhai adolygiad o CSC, gan edrych ar effeithiolrwydd a safonau. Nododd MT y byddai'n ystyried argymhellion ar gyfer CSC ym mis Chwefror, yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan ISOS. • Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd ar ôl codi pryderon ynghylch ansawdd a gwerth y CLG. Nododd NH fod prynu mewn i'r CLG ar lefel debyg i'r llynedd heb unrhyw ostyngiadau sylweddol, ond cydnabu fod heriau gydag ychydig o wasanaethau. Mae'r gwasanaeth glanhau wedi gweld cynnydd sylweddol mewn prynu i mewn. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod gwasanaethau'n iawn. Fodd bynnag, penderfyniad yr ysgol unigol yw a yw'r gwasanaeth yn werth am arian ac os nad oedd ysgolion yn prynu staff i mewn byddai angen lleihau. • Diolchodd y fforwm i aelodau'r Cabinet am ddiogelu gostyngiadau a diolchwyd NH ac RG am eu gwaith da. • Gofynnwyd i adolygiad o staff addysg ganolog digwydd er mwyn achub pobl rhag gadael yn erbyn dod â phobl i mewn. • Lleisiodd AB elfen o rybudd, gan fod ysgolion wedi cael sawl toriad a gofynnodd sut y byddai toriadau pellach yn effeithio ar ysgolion. • Cyfeiriodd NH at y grantiau ADY ac EHE newydd, eglurodd y Cynghorydd Merry y dylid cryfhau cymorth ac ymyrraeth gynnar er mwyn i ysgolion fanteisio ar gymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed, fodd bynnag, roedd AJ o'r farn y byddai pryderon yn parhau. • Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau anfon adborth drwy e-bost ati erbyn dydd Gwener, 24^{ain} Ionawr i'w barn gael eu cynnwys mewn llythyr o'r fforwm. 	
4	Diweddariad Fformiwla 2020/2021	
4.1	<p>Nododd RG nad oedd unrhyw newidiadau arwyddocaol ac amlinellodd y cyllidebau cyfun. Nodwyd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd cynlluniau ynni newydd yn destun trafodaeth bellach, gan ystyried gwerth am arian a sut y caiff ei ariannu ac ati. • Mae dosbarthiad cyllideb cynllun Prentisiaethau lau yn seiliedig ar niferoedd disgyblion blwyddyn 10 ac 11 ac fe'i dangosir ar y llinell cyfleoedd estynedig yng nghyllidebau ysgolion. 	

	<ul style="list-style-type: none"> Bydd MB yn anfon e-bost at NH gydag ymholiad a gododd ynghylch dirprwyaeth o arian ar gyfer Prentisiaethau Iau - NH i ymateb y tu allan i'r fforwm. 	MB/NH
5	Diweddariad am Fuddsoddi mewn Seilwaith TGCh	
5.1	<p>Cyfeiriodd NH at gyflwyniad ar grant seilwaith TGCh a ddangoswyd yn Fforwm blaenorol, yn amlinellu dyraniad o tua £5m i Gaerdydd o grant cyfalaf Llywodraeth Cymru i adnewyddu a gwella seilwaith TGCh ysgolion yn y flwyddyn ariannol hon. Mae Cyngor Caerffili yn cyfuno'r caffael cenedlaethol.</p> <p>Mae swmp-brynu wedi cyflawni prisiau is a gwariwyd £3.1m ar git yr wythnos diwethaf, mae £1m o'r dyraniad yn weddill. Disgwylir i'r pecyn gael ei osod o fewn chwech i naw mis a'r camau nesaf fydd prynu dyfeisiau ar gyfer disgyblion a staff.</p> <p>Mae model ariannu, sy'n anelu at fod yn gyson ar draws ysgolion, i'w gytuno i sicrhau bod TGCh yn gynaliadwy (nid yw taliadau yn y dyfodol wedi'u cadarnhau eto). Dosbarthodd NH fodel ariannol posibl yn dangos adnewyddu seilwaith, switshis, pwyntiau mynediad a dyfeisiau. Roedd y cynigion yn cynnwys un ddyfais rhwng dau ddisgybl a dyfais gyfoes ar gyfer pob aelod o staff addysgu. Bydd archwiliad o offer Sain a Fideo yn cael ei gynnal i bennu'r dyfeisiau sydd gan ysgolion ar hyn o bryd. Awgrymwyd Chromebooks ar gyfer disgyblion a gliniaduron i athrawon.</p> <p>Gan fod ysgolion yn gwario (ar gyfartaledd) tua £3m ar TGCh bob blwyddyn, cynigiwyd dyrannu 1% o gyllideb yr ysgol ar gyfer dyfeisiau ysgol (yn seiliedig ar brisiau a nodwyd ar hyn o bryd). Bydd y grwpiau oedran sy'n cael eu hystyried ym flwyddyn 10/11 ac ôl-16. Gwahoddodd NH farn o'r fforwm a nodwyd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Croesawodd JH adnewyddiad o TGCh a dyrannu arian, gan argymhell bod ysgolion yn atebol am wariant, gyda pharamedrau llym. Ymhlith y blaenoriaethau roedd sicrhau'r prisiau gorau, dylanwadu ar yr hyn sydd ei angen ar ysgolion ac annog y defnydd gorau o'r Hwb. Rhybuddiodd MB yn erbyn un ateb sy'n addas i bawb ac awgrymodd y bydd disgyblion yn dod â'u dyfeisiau eu hunain i mewn, gan groesawu hunan-reolaeth. Roedd gan CP bryderon ynghylch sut y byddai 1% yn cael eu gwario'n llawn mewn ysgolion cynradd, cytunodd NH fod angen tryloywder. Byddai pob ysgol yn derbyn rhwydwaith, switshis a phwyntiau mynediad wedi'u hadnewyddu; mae angen mwy o waith ar ddyfeisiau. Argymhellir adnewyddu dyfeisiau'n llwyr ar ôl cyfnod o amser ar sail gylchol, i gynnwys gweinyddion. Croesawodd AB yr adnewyddu a'r cyllid ond roedd o'r farn y gallai'r dull arwain at fonopoli ac y gallai ysgolion wario ar fathau eraill o TGCh. Nid yw Chromebooks yn briodol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Rhaid archebu'r TGCh erbyn 31^{ain} Mawrth a'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn 31^{ain} Awst. Croesawodd NN ddarpariaeth ar draws y ddinas, gan nodi y dylai mynediad cyfartal gynnwys ardaloedd sy'n ei chael yn fwy heriol i blant ddod â'u dyfeisiau eu hunain. 	

- Roedd yr holl Aelodau'n croesawu adnewyddu dyfeisiau a'r cysyniad ond yn argymhell y dylid dad-glymu'r unigoliaeth.
- Roedd AS yn cefnogi sylwadau ac yn gofyn a ystyriwyd effaith ariannol trwyddedau ar gyfer meddalwedd. Esboniodd NH fod trwyddedau wedi'u cynnwys wrth adnewyddu switshis.
- Croesawodd DS y dull gweithredu, gan dynnu sylw at bwysigrwydd seilwaith sy'n gweithio, gan y gall ysgolion ei chael hi'n anodd.
- Diolchodd yr Aelodau i NH am ei waith caled.
- Croesawodd JS fuddsoddiad ar gyfer seilwaith a dyfeisiau, gan bwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant staff, a holodd a yw hyfforddiant wedi'i gynnwys mewn costau. Cadarnhaodd NH ei fod ar lefel Cymru gyfan. Mae adnoddau, a phwy sydd yn y sefyllfa orau i hwyluso

Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd
Cronfa Gydgyflenwi

Dyddiad y cyfarfod:	15 Ionawr 2020
Amser y cyfarfod:	8.30am
Lleoliad:	YB1, Neuadd y Sir

1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw nodi cyfanswm terfynol y gwariant yn ymwneud â'r Gronfa Gydgyflenwi (CGG) ar ddiwedd Mis 7.

2. Cefndir a Chyd-destun

Mae'r Tîm Cyllid Addysg yn monitro'r costau ariannol a'r rhesymeg dros ad-daliadau yn gyson, ac mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio'n bennaf ar yr hawliadau a'r ad-daliadau hyd yma. Yn ystod Ebrill 2019, cyflwynodd ysgolion adroddiadau i RhCLI i gael eu digolledu am gostau'n ymwneud â CGG yn gysylltiedig â mis olaf 2018/19 ac roedd y costau ychwanegol hyn yn dod i gyfanswm o £403,000. Rhagdybiwyd faint o wariant allai fod yng ngweddill y flwyddyn ariannol, ond gallai'r ffigyrau hyn newid cyn Ebrill 2020.

3. Prif Faterion

Ar ôl adfachu cyfanswm o £500,000 yn ystod 2018/19, roedd y gorwariant cronol a gafodd ei gario ymlaen o 2018/19 yn £796,000. Mae'r cyfraniadau a'r ad-daliadau hyd yn hyn wedi'u hamlinellu isod.

2019/20:

Cyfanswm cyfraniadau ar gyfer 2019/20	£4.41m
Costau i'r GGG ar gyfer Salwch M1-7	£1.23m
Costau i'r GGG ar gyfer Mamolaeth M1-7	£0.79m
Costau i'r GGG ar gyfer M1-7 Arall (gan gynnwys gwaharddiadau)	£0.32m
Costau Amcangyfrifedig i'r CGG ar gyfer M8-12 (pro rata)	£0.98m
Cyfanswm Costau i'r CGG	£3.32m
Cyfanswm tanwariant ar gyfer 2019/20	£1.09m

Amcanestyniad o'r Symudiad ar Atebolrwydd Hanesyddol y GGG

	£m
Balans agoriadol	0.796
Costau 2018/19 a Ad-dalwyd yn 2019/20	0.403
Adfachiad Ychwanegol	(0.500)
Safle yn ystod y flwyddyn a amcanestynnir ar gyfer 2019/20	(1.090)
Balans Rhagamcanol ar 31 Mawrth 2020	(0.391)

4. Goblygiadau Ariannol

Mae'r ffigyrau uchod yn awgrymu'r posibilrwydd am dan-wariant o fewn y flwyddyn, pe bai'r tueddiadau hyd yma'n parhau am weddill y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn yn cymryd yn ganiataol bod pob cais gan ysgolion wedi'i gyflwyno, ac felly bod y gwariant saith mis cynta'r flwyddyn yn adlewyrchu'r gwariant tebygol yng ngweddill y flwyddyn. Fel yr amlinellwyd yn y tabl ar y dudalen flaenorol, os mai tanwariant yw'r canlyniad, gallai hyn, ochr yn ochr â'r adfachiad a wnaed yn ystod y flwyddyn hon, arwain at ddileu'r diffyg hanesyddol. Yn ychwanegol, gallai naill ai fod yn glustog ar gyfer blynyddoedd i ddod neu olygu y gallai ysgolion gyfrannu llai wrth fynd ymlaen.

5. Argymhelliad

Nodi cynnwys yr adroddiad.

Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd
Diweddariad Dileu Swyddi

Dyddiad y cyfarfod:	15 Ionawr 2020
Amser y cyfarfod:	8.30am
Lleoliad:	YB1, Neuadd y Sir

1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad ar y sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn erbyn y cydgyllideb dileu swyddi ar gyfer 2019/20.

2. Cefndir a Chyd-destun

O ran blwyddyn ariannol 2019/20, mae swm o £1 filiwn ar gael fel cyllideb gyfun o fewn y gyllideb ysgolion gyffredinol. Clustnodwyd yr arian hwn ar gyfer unrhyw ddiswyddiadau rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, sydd o fewn meini prawf y Cyngor ar gyfer ariannu o'r gyllideb gyfun. Mae'r gyllideb gyfan sydd ar gael yn adlewyrchu cynnydd o £400,000 ar gyllideb y flwyddyn flaenorol, gan gydnabod y cynnydd sylweddol yng nghostau dileu swyddi yn ystod 2018/19. Yn ychwanegol, mae gweddill o £28,000 hefyd ar gael pe bai angen i'w osod yn erbyn gwariant yn ystod 2019/20. Mae'r gweddill yma'n ganlyniad i'r adfachiad a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn yn 2018/19, oedd ychydig yn uwch na'r hyn oedd ei angen.

3. Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf, o'r amserlenni dileu swyddi sydd gan adran Adnoddau Dynol y Cyngor, yn awgrymu y bydd cyfanswm y costau gadael yn £1.079. Mae'r swm wedi'i rannu fel a ganlyn:

Costau/rhifau'r swyddi sy'n cael eu dileu	Ysgolion Cynradd	Ysgolion Uwchradd	Cyfanswm
Staff Addysgu	£68k (3)	£87k (5)	£155k (8)
Staff Cymorth	£684k (53)	£240k (15)	£924k (68)
Cyfanswm	£752k (56)	£327k (20)	£1.079m (76)

Ni ddilëwyd swyddi mewn ysgolion arbennig hyd yma. Nid oes modd amcanestyn faint o wariant ychwanegol fydd rhwng nawr a diwedd y flwyddyn, er y byddai fel arfer yn isel, gan fod y rhan fwyaf o bobl yn gadael eu swyddi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

4. Goblygiadau Ariannol

Ar sail y cyllid sydd ar gael sy'n dod i gyfanswm o £1.028 miliwn, byddai gwariant o tua £1.079 miliwn, neu uwch, yn arwain yn amlwg at orwariant yn 2019/20. Bydd angen ystyried y dewisiadau o ran ariannu'r gorwariant hwn yn ystod gweddill y flwyddyn, a bydd yn dibynnu'n rhannol ar y sefyllfa derfynol yn erbyn cyllidebau cyfun eraill, gan y gallai tanwariant arall fod ar gael i'w osod yn ei erbyn. Os na fydd y dewis hwn yn rhoi digon o gyllid, bydd rhaid ystyried dewisiadau eraill, gan gynnwys adfachu arian gan ysgolion.

O ran gwybod a ydi cyllideb dileu swyddi o £1m yn ddigonol, mae'n anodd rhagweld yn gywir a fydd yn ddigonol ai peidio wrth fynd ymlaen. Bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar faint o wariant fydd yng ngweddill y flwyddyn. Os na fydd gwariant yn cynyddu'n sylweddol rhwng nawr a diwedd y flwyddyn, mae'n awgrymu y bydd cyllideb o £1m yn briodol. Os bydd costau'n cynyddu'n sylweddol, efallai bydd rhaid ystyried cynyddu'r gyllideb ymhellach yn 2020/21. Fel arall, efallai bydd angen adolygu'r meini prawf ar gyfer ariannu dileu swyddi i sicrhau bod y costau hynny'n parhau'n fforddiadwy, o fewn cyllideb gyffredinol yr ysgol, yn y dyfodol.

5. Argymhelliad

Nodi'r sefyllfa bresennol o ran y cydgyllideb dileu swyddi yn 2019/20 a'r sefyllfa o ran rhagamcan gorwariant ar gyfer y flwyddyn.

Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd
Taliad Gwella Anghenion Cymhleth

Dyddiad y cyfarfod:	15 Ionawr 2020
Amser y cyfarfod:	8.30am
Lleoliad:	YB1

1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi manylion am wariant y Taliad Gwella Anghenion Cymhleth (TGAC) yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 a'r goblygiadau ariannol i'r flwyddyn.

2. Cefndir a Chyd-destun

Yn 2018/19, cyfanswm y Taliadau Gwella Anghenion Cymhleth a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion oedd £8.680 miliwn. Erbyn diwedd y flwyddyn cyfanswm y TGACau oedd £11.182 miliwn yn adlewyrchu taliadau yn ystod y flwyddyn o £2.502 miliwn. Roedd cyllideb o £1.5m wedi'i roi o'r neilltu i ariannu'r taliadau TGAC yr oedd disgwyl iddyn nhw ddigwydd yn ystod 2018/19. Roedd y gyllideb yn annigonol a chafwyd y gorwariant yn ôl gan ysgolion ar ffurf adfachiad ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar gyfer 2019/20, cyfanswm y TGACau a ddirprwywyd i gyllidebau ysgol oedd £10.474 miliwn a'r gyllideb a neilltuwyd i dalu costau TGACau yn ystod y flwyddyn yn 2019/20 oedd £1.5 miliwn. Mae TGACau yn ystod y flwyddyn yn ariannu TGAC newydd, dyrchafiadau oed (Cynradd i Uwchradd; a Meithrin i Gynradd) ac adolygiadau o lefelau ariannu.

Ni newidiodd y Cyllid Ychwanegol i bob categori o 2018/19 gyda symiau blwyddyn lawn sef:

Meithrin	£5,849
Cynradd A	£14,624
Cynradd B	£8,775
Uwchradd A	£14,624
Uwchradd B	£11,699

3. Materion Allweddol / diweddariad 2019/20

Cyfanswm y TGAC a ddirprwywyd i ysgolion oedd £10,474,000. Ar ddiwedd Rhagfyr, cododd cyfanswm gwerth taliadau TGAC i £12,369,000, gan adlewyrchu'r taliadau o fewn y flwyddyn rhwng Ebrill 2019 a Rhagfyr 2019 sef £1,895,000.

Rhoir cyllideb gyfun o £1,500,000 i'r naill ochr i dalu costau taliadau TGAC yn ystod 2019/20. Felly, mae'r gyllideb hon wedi'i gorwario gan £395,000 erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r hollt wybodaeth rhwng ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

	Cyfanswm (ar ddiwedd Rhagfyr)	Cynradd	Uwchradd
Cyfanswm TGAC	£12,369,242	£7,917,831	£4,451,411
TGAC dirprwyedig	£10,474,126	£6,415,407	£4,058,719
TGAC a dalwyd Ebr-Rhag	£1,895,116	£1,502,424	£392,692
Cyllideb gyfun ar gyfer taliadau TGACau yn ystod y flwyddyn	£1,500,000		
Gorwariant ar y gyllideb	£395,116		
Rhagwelir y bydd gorwariant 19/20 yn cael ei adennill	£583,000		

Mae proffil y gwariant hyd yma'n awgrymu cynnydd cyfartalog o 12.3% ar TGAC 2018/19. Erbyn diwedd y flwyddyn, gallai'r TGAC felly ddod i gyfanswm o £12,557,000 gan adlewyrchu taliadau o fewn y flwyddyn o £2,083,000. Byddai hyn yn cynrychioli gorwariant o £359,000 yn erbyn y gyllideb gyfun ac yn cael ei adfer o Ysgolion Cynradd ac Uwchradd gan ddefnyddio'r fformiwla ADY wedi'i bwysoli i nifer y disgyblion ar gyfer pob ysgol fel sail ddyrannu. Nid yw Ysgolion Arbennig yn cael eu cynnwys yn yr adfachiad am nad ydynt yn cael budd o'r gyllideb TGAC gyfun.

4. Goblygiadau Ariannol

Y gorwariant presennol ar y gyllideb TGAC wedi'i chyfuno yw £395,000 ar ddiwedd mis Rhagfyr ac mae'r gorwariant rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn yn debygol o fod tua £583,000. Dylid nodi bod y sefyllfa bresennol, er yn adlewyrchu gorwariant, yn welliant ar y flwyddyn ariannol flaenorol, pan roedd gorwariant o tua £800,000 eisoes wedi bod ar y gyllideb gyfun ar yr un adeg o'r flwyddyn.

Mae'r gyllideb gyfun o £ ,500,000 ar gyfer 2019/20 yn annigonol i ateb y galw TGAC o fewn y flwyddyn, a bydd yn parhau i fod felly oni bai bod un o'r canlynol yn digwydd:

- Nifer y disgyblion a gyflwynwyd fel rhai ag Anghenion Cymhleth yn lleihau
- Swm y cyllid i bob Taliad Gwella Anghenion Cymhleth yn cael ei adolygu a'i leihau.
- Swm y gyllideb gyfun yn cael ei gynyddu.

5. Argymhelliad

Nodi rhagamcan o'r alldro ar gyfer 2019/20 o Daliadau Anghenion Cymhleth.